COFNODION CYFARFOD Y CYD BWYLLGOR AMLOSGFA LLANGRALLO A GYNHALIWYD O BELL TRWY TIMAU MICROSOFT DYDD GWENER, 9 MEHEFIN 2023, AM 14:00

Presennol

Y Cynghorydd B Stephens – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| E L P Caparros | P Davies | G John | JC Spanswick |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

S J Griffiths, J Lynch-Wilson a/ac C Stallard

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Joanna Hamilton | Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth a Chofrestrydd |
| Dean Jones | Cyfrifydd - Ariannol |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |

22. ETHOL CADEIRYDD (O BLITH AELODAU CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF)

PENDERFYNWYD: Penodi'r Cynghorydd B Stephens yn Gadeirydd Cyd-bwyllgor Amlosgfa Llangrallo am y flwyddyn i ddod. Cymerodd y Cynghorydd Stephens y Gadair.

23. ETHOL IS-GADEIRYDD (O BLITH AELODAU CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR)

PENDERFYNWYD: Penodi'r Cynghorydd JC Spanswick yn Is-gadeirydd Cyd-bwyllgor Amlosgfa Llangrallo am y flwyddyn i ddod.

24. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Dim

25. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Amlosgfa Llangrallo dyddiedig 3 Mawrth 2023, fel cofnod gwir a chywir.

26. ADOLYGIAD BLYNYDDOL O AMCANION CYNLLUN BUSNES 2022-23

Cyflwynodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth adroddiad, er mwyn rhoi gwybodaeth i'r Cyd-bwyllgor am berfformiad Amlosgfa Llangrallo yn ystod 2022-23. Roedd y 'Memorandwm Cytundeb' sy'n ymwneud â Chyd-bwyllgor Amlosgfa Llangrallo yn mynnu bod y Cyd-bwyllgor yn derbyn adroddiad yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn adolygu perfformiad yn erbyn y Cynllun Busnes ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol.

Cyfeiriodd sylw'r Aelodau at Atodiad A yr adroddiad, oedd yn nodi perfformiad Amlosgfa Llangrallo mewn perthynas â:

- Nifer yr amlosgiadau;

- Safonau gwasanaeth;
- Gwariant cynlluniedig; a
- Chyflawni amcanion y Cynllun Busnes

Yna rhoddodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth grynodeb o beth o'r data allweddol mewn perthynas â phob un o'r pwyntiau bwled uchod allan o'r wybodaeth y manylwyd arni yn yr atodiad, er budd y Cyd-bwyllgor.

Yn eu tro, cadarnhaodd yr Aelodau fod y wybodaeth yn atodiad yr adroddiad yn darllen yn gadarnhaol iawn, yn enwedig o ran perfformiad a boddhad cyffredinol y cyhoedd oedd wedi defnyddio'r Amlosgfa am y cyfnod 2022-23.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyd-bwyllgor yn nodi'r adroddiad gyda phleser ac yn cytuno i anfon llythyr o werthfawrogiad oddi wrth yr Aelodau at staff yn yr Amlosgfa yn diolch iddynt am yr holl waith caled yr oeddent wedi ei wneud i'r gwasanaeth yn ystod y 12 mis diwethaf.

27. ARCHWILIAD MEWNOL AMLOSGFA LLANGRALLO

Cyflwynodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi gwybod i'r Cydbwyllgor am Archwiliad Mewnol diweddar yn Amlosgfa Llangrallo mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2022-23.

Fel gwybodaeth gefndir, cadarnhaodd fod adolygiad Archwilio Mewnol o'r Amlosgfa yn cael ei gynnal fel rhan o Gynllun Archwilio Mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2022-23. Amcan yr Archwiliad oedd rhoi sicrwydd i'r Cyd-bwyllgor bod y trefniadau rheoli mewnol, llywodraethu a rheoli risg mewn perthynas ag Amlosgfa Llangrallo yn ddigonol ac yn effeithiol. Manylwyd ar amcanion yr archwiliad ym mharagraff 2.2 o'r adroddiad.

Dywedodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth fod yr archwiliad wedi nodi nifer o gryfderau a meysydd o arfer da ar gyfer pob amcan archwilio. Ni nodwyd unrhyw faterion allweddol yn ystod yr archwiliad, ond cafodd dau argymhelliad blaenoriaeth isel eu codi ac roedd cynllun gweithredu'r rheolwyr wedi cael ei ddiweddaru ers hynny gyda sylwadau cysylltiedig gan y rheolwyr.

Dywedodd fod barn yr Archwiliad wedi dod i'r casgliad bod sicrwydd sylweddol bod system gadarn o lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yn ei lle, gyda rheolaethau mewnol yn gweithredu'n effeithiol ac yn cael eu cymhwyso'n gyson i gefnogi cyflawni amcanion yn y maes a archwiliwyd. Felly, nid oedd angen unrhyw gamau pellach.

Roedd copi o'r Adroddiad Archwilio Mewnol ynghlwm yn Atodiad A i'r adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod p'un a oedd gan Gynghorau Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg ddolen gyswllt i dudalennau gwe CBSP yn ymwneud â'r Amlosgfeydd, dywedodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth nad oedd hyn yn bosibl, gan mai CBSP oedd yr Awdurdod arweiniol ac felly yr unig un o'r tri Chyngor oedd â pherchnogaeth a hawliau diweddaru ar y rhan hon o'r we.

PENDERFYNWYD: Bod y Cydbwyllgor yn nodi'r Adroddiad Archwilio Mewnol.

28. DATGANIAD CYFRIFON BLYNYDDOL 2022-23

Cyflwynodd y Cyfrifydd Rheolaeth Ariannol a Chau adroddiad, er mwyn cyflwyno'r Datganiad Cyfrifon Blynyddol heb ei archwilio ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23 i'r

Cyd-bwyllgor, ac i gael cymeradwyaeth i gyflwyno’r Datganiad Cyfrifon Blynyddol ar gyfer Amlosgfa Llangrallo i Archwilio Cymru.

Cadarnhaodd fod Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2018, yn ei gwneud yn ofynnol i’r Cyd-bwyllgor gymeradwyo’r Datganiad Cyfrifon Blynyddol yn ffurfiol erbyn 30 Mehefin eleni ac ardystio eu bod yn cyflwyno sefyllfa ariannol Amlosgfa Llangrallo yn deg.

Mewn perthynas â’r sefyllfa bresennol, tynnodd sylw’r Aelodau at Adran 1 o’r Datganiad Cyfrifon Blynyddol (Atodiad 1 i’r adroddiad), oedd yn dangos bod Amlosgfa Llangrallo yn 2022-23 wedi gwneud diffyg net o £361,665 (gwahaniaeth rhwng ‘Balansau a ddygwyd ymlaen' Llinell 1 a ‘Balansau a gariwyd ymlaen' Llinell 7). Roedd y diffyg wedi cael ei dynnu o’r gronfa gronedig wrth gefn ar gyfer yr Amlosgfa a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2022, gan ddod â chyfanswm y gronfa wrth gefn honno i £2,817,942 ar 31 Mawrth 2023 o gymharu â £3,179,607 ar 31 Mawrth 2022.

Roedd Tabl 1 yn yr adroddiad yn adlewyrchu crynodeb o sefyllfa ariannol derfynol yr Amlosgfa ar gyfer 2022-23 o’i chymharu â'r gyllideb a osodwyd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

Amlinellai paragraff 3.2 o'r adroddiad rai esboniadau am yr amrywiadau mwy sylweddol oddi wrth y gyllideb, ac ymhelaethodd arnynt er budd y Cyd-bwyllgor.

Dangosai Tabl 2 yn yr adroddiad ddadansoddiad o'r Gyllideb Cynnal a Chadw Cyfalaf Arfaethedig (y cyfeirir ati fel costau Ariannu Cyfalaf yn Nhabl 1) ynghyd â'r Alldro a'r Amrywiannau ar gyfer 2022-23.

Yn ogystal â'r Datganiad Cyfrifon Blynyddol, darparwyd Mantolen atodol yn Nhabl 3 yn yr adroddiad. Roedd y wybodaeth atodol hon yn rhoi dadansoddiad pellach o'r ffigurau a gofnodwyd yn y Datganiad Cyfrifon Blynyddol. Dywedodd y Cyfrifydd Rheolaeth Ariannol a Chau mai er gwybodaeth yn unig yr oedd hyn ac felly nad oedd yn destun archwiliad ar ddiwedd y flwyddyn.

Roedd rhagor o wybodaeth am y balansau a nodir yn Nhabl 3, ym mharagraff 3.4 o'r adroddiad.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cydbwyllgor yn cymeradwyo’r Datganiad Cyfrifon Blynyddol ar gyfer Amlosgfa Llangrallo am 2022-23 (Atodiad 1) ac yn gofyn i Gadeirydd y Cydbwyllgor lofnodi’r Datganiad Cyfrifon Blynyddol cyn ei gyflwyno i Archwilio Cymru.

29. <u>EITEMAU BRYS</u>

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 14:38